


Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Canllaw i Ddarparu Gwybodaeth & Chymorth gyda Budd-daliadau

## Cip cyflym:

**Mae llawer o bobl yn colli'r cyfle i gael cymorth ariannol sy'n ddyledus iddynt. Gall cynghorau cymuned a thref helpu trwy annog pawb i wirio pa fudd-daliadau allant eu hawlio—boed yn help gyda chredyd pensiwn, tai, biliau ynni, gofal plant, neu ychwanegiadau incwm.**

### EFFEITHIAU:

### Straen Ariannol

Mae arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos fod 94% o bobl ledled Cymru yn dweud fod eu costau byw wedi codi; dywedodd 43% fod eu sefyllfa ariannol wedi gwaethygu mewn dim ond chwe mis; mae tair aelwyd o bob pump wedi torri ar anhanfodion a chyfleustodau; roedd teuluoedd yn gwario llai ar brydau bwyd a brandiau i arbed arian; mae tua 50% o oedolion iau yng Nghymru wedi defnyddio banciau bwyd ac mae llawer yn cael eu gorfodi i wresogi llai: mae 68% yn poeni am wresogi, dywedodd 70% eu bod yn byw mewn cartrefi oerach.

### Iechyd Meddwl & Llesiant

Dywedodd mwy na hanner y bobl a ymatebodd fod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu oherwydd pwysau costau byw; nid yw 40% yn gallu fforddio trafnidiaeth; mae 32% yn colli cysylltedd (ffôn/rhyngrwyd); mae 50% yn torri ar eu cymdeithasu.

## Pam ddylech chi ei wneud?

Mae cymorth lleol yn gweithio orau i bobl sydd wedi'u hynysu neu wedi cael eu gadael allan.
Mae'n fwy dibynadwy, personol, ac yn haws ei gyrraedd.
Mae cyngor da yn helpu pobl i gael mwy o arian ar gyfer bwyd, rhent, a biliau.
Nid oes rhaid i gynghorau fod yn arbenigwyr. Gallant gefnogi neu gysylltu pobl â'r **help iawn**.

## Heriau:

Mae cael pobl i hawlio'r budd-daliadau sy'n ddyledus iddyn nhw yn gallu bod yn anodd. Mae stigma, ymwybyddiaeth isel, ffurflenni cais cymhleth, a materion cysylltedd digidol oll yn chwarae rhan. Y gwir plaen yw nad yw llawer o bobl yn gwybod eu bod yn gymwys—neu efallai eu bod yn teimlo'n anghysurus am ofyn am help. Er mwyn cyrraedd pobl sy'n fregus neu wedi'u hynysu, mae angen i gymorth gael ei dargedu, bod yn ddibynadwy, ac yn hawdd cael gafael arno.

## Cyfleoedd & Datrysiadau Allweddol

**Darparu gwybodaeth a chyngor**
Gall cynghorau adeiladu mwy o ymddiriedaeth a gwella cysylltiadau gyda phobl leol trwy ddefnyddio lleoedd lleol cyfarwydd—fel llyfrgelloedd, neuaddau trefi, a chanolfannau cymunedol—yn hybiau cymorth. Trwy fynd ati o ddifrif i chwilio am grwpiau bregus, megis oedolion hŷn, gofalwyr, pobl anabl, a rhieni sengl, gall cynghorau wneud yn siwr fod pobl sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fethu cael budd-daliadau yn cael yr help maen nhw ei angen.
Mae rhwydweithiau cymunedol yn ffordd wych o gyrraedd y grwpiau hyn. Mae hybiau cynnes a lleoedd croesawgar fel banciau bwyd neu glybiau cinio yn gallu bod yn lleoedd delfrydol i gynnig cyngor neu gyfeirio pobl at y cymorth iawn.

**Gweithio gyda phartneriaid**
Mae sefydlu llwybrau atgyfeirio, partneriaethau a gweithio gyda sefydliadau fel Cyngor Ar Bopeth, Age Cymru, neu Shelter Cymru i ddarparu sesiynau allestyn neu glinigau galw-heibio rheolaidd mewn mannau cymunedol yn galluogi pobl i dderbyn gwasanaethau a chymorth yn lleol.

**Cyfeirio Pobl**
Gall cynghorau gynnwys dolenni a gwybodaeth ar eu gwefannau a darparu hysbysfwrdd ar gyfer posteri a gwybodaeth ar sut i ddod o hyd i wasanaethau.

**Cynnig cyswllt digidol**
Mae darparu cyfrifiaduron a Wi-Fi mewn adeiladau cymunedol yn gallu helpu pobl leol i wneud ceisiadau ar-lein a defnyddio offerynnau cymorth fel y Gyfrifiannell Budd-daliadau Turn2us.

Gall cynghorwyr fod yn eiriolwyr lleol i annog pobl i wneud ceisiadau am fudd-daliadau a mynd i'r afael â'r stigma ynghylch gwneud ceisiadau.

Partneru gyda'r Gymuned leol
Gall cysylltwyr gysylltu pobl leol gyda chymorth

Mae gan Ddarparwyr Tai Cymdeithasol ymgynghorwyr all helpu eu tenantiaid i dderbyn yr hyn sy'n ddyledus iddynt

# Gwybodaeth Ddefnyddiol

## Grymoedd

**Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. gweinydd@unllaiscumru.cymru**

**Mae Credyd Pensiwn yn Agor y Drws i Fwy o Gymorth**
Efallai y bydd pobl hŷn sy'n gallu gwneud cais am Gredyd Pensiwn hefyd yn gymwys am fudd-daliadau ychwanegol, megis Taliad Tanwydd y Gaeaf, Taliad Tywydd Oer, a help gyda thai neu dreth y cyngor.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn annog unigolion, mudiadau cymunedol, awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru yn gryf i fynd ati o ddifrif i godi ymwybyddiaeth am Gredyd Pensiwn —er mwyn annog pobl hŷn gymwys i wneud cais am yr hyn sy'n ddyledus iddynt.

Mae'r **Addewid Credyd Pensiwn** yn annog grwpiau i weithredu—o rannu gwybodaeth i dywys pobl yn uniongyrchol trwy geisiadau—i leihau stigma a sicrhau bod pobl hŷn yn gwybod beth yw eu hawliau.

**Arweiniadau Gwybodaeth Age Cymru**

**Cymorth Age Cymru gyda'r Argyfwng Costau Byw**

Mae **Cyngor ar Bopeth** yn helpu pobl i ddeall eu hawliau ac yn darparu cymorth i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

**Pecyn Oed Annibynnol i Annog Mwy o Bobl i Wneud Cais am Gredyd Pensiwn**

- Defnyddiwch gyfrifianellau budd-daliadau ar-lein (Turn2Us, EntitledTo, MoneyHelper) i weld beth allai fod yn ddyledus i bobl.
- Cysylltwch ag ymgynghorwyr lleol trwy Advicelink Cymru, DAP Cymru, Cyngor Ar Bopeth, neu dîm lles eich cyngor.
- Gwnewch gais i gronfeydd arddewisol fel y Gronfa Cefnogi Aelwydydd neu'r Gronfa Cymorth Arddewisol os ydych yn wynebu caledi.
- Gofynnwch am help gyda cheisiadau neu apeliadau cymhleth trwy DAP Cymru, canolfannau cyfreithiol, neu wasanaethau anableddau.
- Gwnewch eich offer yn fwy effeithlon (boilyr, inswleiddio) trwy Cymru Cynhesach neu NEST er mwyn torri biliau ynni.

## Gwasanaethau & Phrosiectau Presennol:

Mae gan **Gyngor Cymuned Parc Caia** wasanaeth cynghori cyfrinachol, rhad ac am ddim ar gyfer ei gymuned ac maent wedi cefnogi pobl leol i hawlio £1,578,777 mewn budd-daliadau.

Mae **Cyngor Tref Cwmaman** yn cynnal eu Gwener y Gymuned lle y maent wedi creu canolfan un alwad er mwyn i bobl leol gael gafael ar gymorth a chyngor gan bartner sefydliadau yn eu cymuned.

Mae **Cyngor Cymuned Y Mwmbwls** yn cynnal caffi cefnogi gyda choffi a chacen ac yn gwahodd gwasanaeth cefnogi neu gynghori gwahanol fel y gall pobl leol dderbyn gwybodaeth mewn sefyllfa anffurfiol.

# Gwybodaeth am Gyllid & Chyfleoedd Posib

Cronfa Gymunedol Y Loteri Genedlaethol

Cronfa Pobl Hŷn: Mae'n cynnig arian ar gyfer mentrau cymunedol sy'n cefnogi pobl hŷn.

**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Gwneud ceisiadau effeithiol am grantiau'**

# Eisiau Gwybod Mwy?

**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales https://bit.ly/3KYHftK Un Llais Cymru

# Pa fuddion sydd ar gael?

Mae nifer o fudd-daliadau ar gael i bobl sy'n byw yng Nghymru i helpu gydag arian, tai, iechyd, a chostau byw dyddiol

## Budd-daliadau Cynhwysol (ar draws gwledydd Prydain)

Mae'r rhain ar gael i bawb sy'n byw yng ngwledydd Prydain, gan gynnwys pobl yn byw yng Nghymru:

**Credyd Cynhwysol:** Taliad ar gyfer pobl sy'n ddiwaith, ar incwm isel, neu sy'n methu gweithio. Mae'r budd-dal hwn wedi disodli chwe budd-dal blaenorol fel y Lwfans Ceiswyr Gwaith a Budd-dal Tai.

**Credyd Pensiwn:** Ar gyfer pobl 66 oed neu hŷn i ychwanegu at eu hincwm os yw o dan drothwy penodol.

**Lwfans Ceiswyr Gwaith (JSA)**: Ar gyfer pobl sy'n chwilio am waith.

**Cymorth Incwm:** Budd-dal ar gyfer pobl ar incwm isel sydd ddim yn gweithio nac yn chwilio am waith (er enghraifft, rhieni, gofalwyr, neu bobl sy'n methu gweithio).

**Budd-daliadau Anabledd:**

*Taliad Annibyniaeth Personol (PIP):* Ar gyfer pobl 16 i 64 oed sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.

*Lwfans Byw i'r Anabl (DLA):* Ar gyfer pobl dan 16 sydd ag anabledd.

*Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)*: Ar gyfer pobl sy'n sâl/dost neu'n anabl ac sy'n methu gweithio.

**Budd-dal Plant:** Taliad misol i deuluoedd â phlant.

**Lwfans Gofalwyr:** Ar gyfer pobl sy'n gofalu am rhywun ag anabledd neu salwch hirdymor.

## Budd-daliadau a Gwasanaethau ar gyfer Cymru Yn Unig

Mae gan Lywodraeth Cymru rymoedd datganoledig mewn meysydd megis iechyd, addysg, tai, a thrafnidiaeth, ac mae wedi cyflwyno cymorth ychwanegol i bobl:

**Cronfa Cymorth Arddewisol Llywodraeth Cymru (DAF)**: Mae'n darparu cymorth brys i helpu gyda chostau annisgwyl, megis prynu nwyddau hanfodol neu dalu costau adeg caledi.

**Gostyngiad Treth y Cyngor:** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynllun i leihau cost Treth y Cyngor i aelwydydd incwm isel yng Nghymru.

**Help gyda Thalu am Ynni:** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau ynni trwy gynlluniau fel Taliad Tanwydd y Gaeaf a Thaliadau Tywydd Oer.

**Cymorth Tai:** Mae'n cynnwys grantiau a benthyciadau ar gyfer gwella cartrefi, gan gynnwys cymorth i addasu cartrefi ar gyfer pobl ag anableddau.

**Prydau Ysgol Rhad ac am Ddim:** Ar gael i ddisgyblion cymwys mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru o deuluoedd sy'n derbyn rhai budd-daliadau penodol.

**Talebau Dechrau Iach:** Mae'r talebau hyn, sydd ar gyfer teuluoedd incwm isel plant o dan 4 oed, yn darparu help tuag at brynu bwyd iach.

**Cymorth i Bobl Hŷn**
**Pàs Bws Rhad ac am Ddim :** Ar gael i bobl 60 oed a throsodd, sy'n eu galluogi i deithio am ddim ar fysiau lleol.

**Cymorth i Bobl Anabl**
**Mynediad at Waith:** Mae'n darparu grantiau ar gyfer pobl ag anableddau i helpu gyda chostau cael neu gadw swydd, megis offer arbennig neu drafnidiaeth.
**Grantiau Technoleg Cynorthwyol:** Cymorth gan Lywodraeth Cymru i gefnogi i helpu pobl ag anableddau i fanteisio ar dechnoleg sy'n eu cefnogi yn eu bywydau dyddiol.

**Cymorth i Fyfyrwyr ac Addysg**
**Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru:** Ar gyfer myfyrwyr mewn addysg bellach ac uwch, i helpu gyda ffïoedd dysgu a chostau byw.
**Cymorth Addysg Ôl-16:** Ar gyfer pobl mewn addysg ôl-16 sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

**Cymorth Tai a Digartrefedd**
**Cymorth Rhent a Morgais:** Mae hyn yn cynnwys ad-daliadau rhent, budd-dal tai, a chymorth drwy'r Credyd Cynhwysol ar gyfer costau tai.
**Gwasanaethau Digartrefedd:** Cymorth i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gynnwys llety brys a chymorth gyda thai.

**Cymorth Ychwanegol i Deuluoedd**
**Dechrau'n Deg:** Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n cynnig gofal plant a gwasanaethau cefnogi rhad ac am ddim i deuluoedd plant dan 4 mewn rhannau penodol o Gymru.
**Mae Cynnig Gofal Plant Cymru** yn darparu 30 awr o ofal plant yr wythnos yn rhad ac am ddim i rieni cymwys am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
**Mynd i'r Afael â Thlodi ac Anghydraddoldeb:** Mae sawl menter ar waith i leihau tlodi, gan gynnwys help gyda phrynu gwisgoedd ysgol, cymorth i deuluoedd incwm isel, a chymorth cymunedol arall.

**Gwasanaethau Cymorth Eraill**
**Gwasanaethau Cyngor ar Ddyledion:** Mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sy'n wynebu anawsterau ariannol i gael cyngor rhad ac am ddim ar ddyledion.
**Cymorth Materion Gwledig: C**ymorth ariannol penodol ar gyfer pobl yn byw yng nghefn gwlad Cymru, gan gynnwys cymorth ffermio.

Mae **Advicelink Cymru** yn wasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru a weithredir gan Cyngor Ar Bopeth. Mae'n cynnig cyngor rhad ac am ddim, cyfrinachol, dibynadwy ar fudd-daliadau lles i bobl Cymru—gan gynnwys Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Gofalwyr, Credyd Pensiwn, dyledion, tai, cyflogaeth a mwy.

Ar gyfer pobl hŷn, mae **Age Cymru** yn cynnig cyngor ar Gredyd Pensiwn, Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl / PIP, Cymorth Profedigaeth, a chymorth gyda phensiynau, tai a chymorth gyda threth y cyngor. Maen nhw hefyd yn cynnig cyfrifiannell budd-daliadau i wirio unrhyw fudd-daliadau y gellid eu hawlio.